# PWYLLGOR CRAFFU TAI A CHYMUNEDAU DIOGEL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 14 Mehefin, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd A.M. Collins (Cadeirydd); Cynghorydd B. Loveluck-Edwards (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J. Aviet, S. Campbell, G.D.D. Carroll, W.A. Hennessy, S. Lloyd-Selby, M.J.G. Morgan a S.D. Perkes.

Hefyd yn bresennol: C. Ireland (Cynrychiolydd Cyngor ar Bopeth Caerdydd a’r Fro), G. Doyle, a V. John (Cynrychiolwyr o Weithgor / Panel Tenantiaid), Cynghorwyr I. Buckley, C.P. Franks, E. Goodjohn, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), R.R. Thomas, E. Williams (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu) a M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu).

116 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol”.

117 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr G. Ball a S.M. Hanks a D. Dutch a H. Smith (Cynrychiolwyr o Weithgor / Panel Tenantiaid)

118 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mai, 2023 fel cofnod cywir.

119 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

120 CYNGOR BRO MORGANNWG: CALENDR PERFFORMIAD BLYNYDDOL – 2023/24 (CYF) –

Cafodd yr eitem a gyfeiriwyd o'r Cabinet ar 25 Mai 2023 ei chyflwyno gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol. Pwrpas yr adroddiad atodedig oedd cyflwyno Calendr Perfformiad Blynyddol Bro Morgannwg ar gyfer 2023/24, a oedd yn amlinellu'r cynlluniau/adroddiadau allweddol a fyddai'n cael eu hystyried gan yr Aelodau drwy gydol y flwyddyn. Dyma rai o'r uchafbwyntiau:

- Diweddariad ar y 3 agwedd allweddol ar waith a gysylltir â pherfformiad corfforaethol: y broses hunanasesu, y broses asesu gan banel o gymheiriaid, a'r calendr perfformiad cyffredinol.
- Yr adroddiad hunanasesu, yn edrych ar botensial y Cyngor i wella a'i ddefnydd o wybodaeth am bobl, asedau, cyllid a pherfformiad i wella a chefnogi cyflawni ei amcanion llesiant ei hun.
- Roedd yr adroddiad yn cynnwys myfyrdodau gan swyddogion y Cyngor, Aelodau Etholedig, y Cabinet a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ar y trefniant a'r broses newydd hon.
- Roedd yn cyfeirio at y newidiadau a fyddai'n cael eu cyflwyno yn rhan o broses eleni i helpu i sicrhau rhagor o drylwyredd, hy, ystyriaeth bellach o'r risgiau a allai effeithio ar weithgareddau'r Cyngor, rhywfaint o waith paratoi safonol am y sesiynau herio gan gymheiriaid, lle byddai cyfarwyddwyr yn herio hunanasesiadau lefel Cyfarwyddiaeth y naill a'r llall.
- Byddai Aelodau o'r Pwyllgorau Craffu ac Aelodau Cabinet hefyd yn cymryd rhan yn y broses, gyda drafft cychwynnol yn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfodydd Craffu, Llywodraethu ac Archwilio, yn ogystal â'r Cyngor Llawn.
- Roedd yn rhaid cynnal hunanasesiad yn flynyddol; ond unwaith ym mhob cylch etholiadol pum mlynedd, roedd yn ofynnol i'r Cyngor gomisiynu her allanol gan gymheiriaid drwy banel asesu perfformiad a oedd yn cael ei gynnal yn annibynnol ar y sefydliad.
- Byddai comisiynu asesiad perfformiad y panel i gyd-fynd â datblygiad y Cynllun Corfforaethol newydd yn cynnig cyfle i'r canfyddiadau helpu i siapio'r Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Cyflawni Blynyddol newydd ar gyfer 2025/26. Roedd pennu'r llinell amser ar gyfer yr asesiad yn benderfyniad gwleidyddol. Oherwydd y gwaith paratoi sylweddol yr oedd ei angen, roedd cais i'r Cabinet ystyried amseriad asesiad perfformiad y panel er mwyn caniatáu digon o amser paratoi (hy, yn fuan yn 2024).
- Roedd Atodiad A yn amlinellu rhaglen dreigl o waith ar y cyd ag Aelodau drwy gydol Calendr Perfformiad Blynyddol 2023/24 i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth a chryfhau eu cyfranogiad wrth lunio a mireinio'r cynlluniau, yr adroddiadau a'r prosesau allweddol a fyddai'n eu cefnogi yn eu rôl allweddol o asesu a oedd y Cyngor yn cyflawni ei Amcanion Llesiant, yn sicrhau gwerth am arian ac yn gwella llesiant ei ddinasyddion.
- Yn dilyn llwyddiant y sesiynau anffurfiol, datblygiadol i'r Aelodau Etholedig yn rhan o broses berfformiad y llynedd, byddai'r sesiynau hyn yn cael eu cynnal eto drwy gydol proses eleni hefyd.

Ar ôl i'r adroddiad gael ei gyflwyno, cododd y Pwyllgor nifer o sylwadau a chwestiynau.

Tynnodd y Cynghorydd Morgan a Lloyd-Selby sylw at y ffaith bod yr adroddiad yn eglur, ond hefyd yn gynhwysfawr. Ychwanegodd y Cynghorydd Lloyd-Selby ei bod yn fuddiol bod yr adroddiad a'r broses berfformio yn canolbwyntio ar sicrhau ymgysylltiad ag aelodau o'r cyhoedd, a hefyd yn cydnabod ac yn dryloyw ynghylch y risgiau o flaen adrannau'r Cyngor, hy effaith yr argyfwng costau byw. Gofynnodd y Cynghorydd pryd fyddai'r Gweithdy i'r Aelodau'n cael ei gynnal ym mis Gorffennaf, ac a oedd y gweithdy hwnnw'n agored i'r holl Aelodau, neu i'r rhai a oedd yn eistedd ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn unig. Mewn ymateb i hynny, dywedodd y Cyfarwyddwr y bydda'n holi pryd fyddai'r gweithdy arfaethedig yn cael ei gynnal ym mis Gorffennaf, ac a fyddai ar agor i bob Aelod Etholedig, gan ganolbwyntio ar yr Adroddiad Hunanasesu Blynyddol.

Teimlai'r Cynghorydd Perkes fod yr hunanasesiad a'r asesiadau cymheiriaid gyda'r Cyfarwyddwyr yn hynod fuddiol o ran asesu perfformiad a'r ffordd orau o gyflawni'r amcanion corfforaethol a rhoi cymorth i swyddogion a chydweithwyr y Cyngor.

O ran ymholiad yr Is-Gadeirydd ynghylch a fyddai gweithdai ychwanegol yn cael eu cynnal i unrhyw Aelodau na fyddent o bosib ar gael ar gyfer sesiwn mis Gorffennaf, byddai'r Cyfarwyddwr yn holi cydweithwyr o fewn y Gwasanaethau Democrataidd i weld a ellid trefnu hynny, gan ystyried argaeledd a'r gofynion ar Aelodau, yn ogystal â chynnal sesiwn briffio ymlaen llaw yn dilyn gwyliau'r haf. O ran ymholiad dilynol y Cadeirydd ynghylch pryd y byddai'r sesiynau hyn yn cael eu cynnal, roedd y Cyfarwyddwr yn awyddus i gael adborth gan y Pwyllgor a chan Aelodau Etholedig eraill ynghylch amseroedd addas, gan roi ystyriaeth i'w hymrwymiadau eraill, fel gwaith a chyfrifoldebau gofalu.

Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad atodol, wedi hynny

ARGYMHELLWYD – Y DYLID nodi Cyfeirnod y Cabinet a Chalendr Perfformiad Blynyddol Cyngor Bro Morgannwg 2023/24 sydd wedi'i atodi.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys cyfeirnod y Cabinet, yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

121 CYNLLUN BUSNES GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR (CAT) –

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor gan y Pennaeth Cydwasanaethau Rheoleiddio (CRh). Pwrpas yr adroddiad oedd rhoi cyfle i'r Pwyllgor graffu cyn penderfynu ynghylch Cynllun Busnes y Cydwasanaethau Rheoleiddio. Rhoddodd Pennaeth y Cydwasanaethau Rheoleiddio hefyd gyflwyniad a roddai grynodeb a throsolwg i'r Pwyllgor o'r Cynllun newydd, a oedd yn cynnwys sawl maes allweddol o ddiddordeb:

- Cefndir y CRh, a oedd yn darparu gwasanaeth integredig i gyflawni swyddogaethau Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach a Thrwyddedu ar draws Awdurdodau Lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Bro Morgannwg.
- Trefniadau llywodraethu'r CRh a'i strwythur a oedd yn seiliedig ar swyddogaeth yn hytrach na phroffesiwn.
- Amlinellwyd Cynllun Busnes y CRh, ei bum thema strategol er mwyn helpu i gyflawni'r gofynion statudol a'u canlyniadau.
- Cynigiwyd myfyrdodau ar Gynllun Busnes y CRh ar gyfer 2022-23, gan gynnwys ei gyflawniadau a'r heriau o'i flaen.
- Gan edrych ymlaen i 2023/24, dyma oedd yr heriau allweddol i'r CRh a'r Cynllun. adennill tir a gollwyd yn dilyn COVID, recriwtio a chadw staff mewn rolau penodol, rheoliadau newydd, cyfyngiadau cyllidebol, y cynnydd yn y defnydd o e-sigaréts a'r angen i fonitro a mynd i'r afael ag achosion o werthu dan oed ac o gyflenwi fersiynau anghyfreithlon o'r dyfeisiau hyn, cynorthwyo i weithredu'r Safonau Gofynnol Effeithlonrwydd Ynni ar gyfer tai yn y sector rhentu preifat (SRhP) a Strategaeth Cartrefi Gwag y Fro, yn ogystal â mynd i'r afael â phryderon ynghylch bridio cŵn.
- O ran y camau nesaf, roedd angen i'r Cyd-bwyllgor gadarnhau'r Cynllun drafft, a byddai wedyn yn cael ei gyflwyno ger eu bron ar 21 Mehefin, 2023.

Ar ôl i'r adroddiad gael ei gyflwyno, cododd y Pwyllgor nifer o sylwadau a chwestiynau.

Gofynnodd y Cynghorydd Carroll am y newidiadau i gasgliadau gwastraff ac am y penderfyniad i symud i gasglu bagiau du bob tair wythnos. Holodd a oedd Iechyd yr Amgylchedd wedi asesu effaith y newidiadau hyn, yn enwedig ar breswylwyr mewn fflatiau, hy, y potensial y gallai pwyntiau casglu gwastraff cyffredin sy'n orlawn ddenu llygod mawr. Dymunai'r Pennaeth Gwasanaethau Tai ac Adeiladu sicrhau'r Pwyllgor na fyddai fflatiau'n cael eu cynnwys yn y newidiadau hyn i'r trefniadau casglu gwastraff am y tro. Fel landlord tai cymdeithasol, gan gynnwys fflatiau, byddai'r Cyngor yn ystyried, ar y cyd â'r adran Glanhau Strydoedd, sut i wella'r trefniadau ailgylchu ar gyfer fflatiau ayyb, a sut i fynd i'r afael â phroblemau'n gysylltiedig â storio gwastraff.

Ar gwestiwn arall y Cynghorydd ynghylch y ffigurau a ddarparwyd yn y Cynllun ar ganran yr eiddo rhent preifat a thai amlfeddiannaeth (HMOs) a gafodd eu gwella drwy ddileu peryglon categori 1 2021/22 a’r niferoedd is yn y Fro o gymharu â Phen-y-bont ar Ogwr a Chaerdydd, eglurwyd mai rhyw chwinc oedd hyn yn y modd yr oed yr ystadegau'n cael eu hadrodd. Wrth symud ymlaen, byddai ystadegau'n cael eu darparu'n gysylltiedig â pheryglon categori 1 a chategori 2 a fyddai'n creu darlun llawer gwell o'r gwaith a oedd yn cael ei wneud. Fodd bynnag, nid oedd yr ystadegau ond yn trafod y SRhP, yn hytrach na thai cymdeithasol, ond roedd yn rhaid i'r holl dai cymdeithasol gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) a oedd yn seiliedig ar y system graddio iechyd a diogelwch ar gyfer tai a oedd yn cael ei defnyddio i bennu'r categori risg, ac roedd yn ofynnol i landlordiaid cymdeithasol fynd i'r afael â risgiau categori 1 a risgiau difrifol. Roedd hyn hefyd yn cael ei ategu gan y Ddeddf Rhentu Cartrefi.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Lloyd-Selby at y pwysau cyllidebol, a phwysau eraill, a achoswyd yn sgil COVID a'r argyfwng costau byw, a'r risg uchel y byddai hynny'n

amharu ar ddarpariaeth gwasanaeth. Roedd hi'n eithriadol o fuddiol y byddai'r CRh yn cymryd camau i liniaru'r pwysau hynny o ran costau, drwy fabwysiadu ymagwedd seiliedig ar risg at flaenoriaethau. Gofynnodd pe bai'n rhaid i'r CRh ailflaenoriaethu, oherwydd cyfyngiadau cyllidebol, beth fyddai'r trefniadau i gyfathrebu ynghylch hynny, pe bai'n effeithio'n sylweddol ar unrhyw agwedd ar fusnes. Eglurwyd y byddai angen cyflwyno achos gerbron y Cynghorau partner i amlinellu' gwasanaethau y byddai angen eu darparu o hynny allan, a pha agweddau y byddai'r CRh yn rhoi'r gorau i'w darparu. Byddai'n golygu taro cydbwysedd gofalus rhwng gwasanaethau Craidd yr oedd angen eu cadw, a oedd yn cynnwys gwasanaethau statudol, a gwasanaethau anstatudol, a allai hefyd fod yr un mor bwysig a buddiol, fel y gwaith a wneir i gefnogi preswylwyr sy'n agored i niwed, hy, gosod dyfeisiau atal galwadau. Awgrymodd y Cynghorydd y dylai'r Cynllun nodi'r broses ar gyfer penderfynu ynghylch unrhyw ymarfer sylweddol gan y CRh i ailflaenoriaethu gwasanaethau, a beth fyddai'r trefniadau i cyfathrebu ynghylch yr ymarfer ailflaenoriaethu hwnnw ac i ymgynghori arno, yn rhan o'r broses lle gwneir penderfyniad terfynol gyda'r Cyngor partner. Awgrymwyd hefyd y dylid rhannu'r Cynllun Busnes, ar ôl ei gwblhau'n derfynol, â'r holl Aelodau Etholedig.

Gofynnodd yr Is-gadeirydd a allai'r CRh gysylltu mwy ag Aelodau Etholedig ynghylch meysydd sy'n destun pryder ac sy'n ymwneud â diogelu'r cyhoedd, fel masnachwyr diegwyddor, sgamiau, benthyciadau arian anghyfreithlon, e-sigaréts anghyfreithlon a throseddau ar garreg y drws. Gellid wedyn ddosbarthu'r wybodaeth hon mewn digwyddiadau lleol drwy'r Aelodau a grwpiau cymunedol, a hefyd drwy ehangu mentrau cysylltiedig, hy, Prosiect Torwyr Gwallt Y Bont-faen a Phenarth. Dywedodd Pennaeth y CRh ei bod yn bwysig cyfleu'r negeseuon hynny ynghylch troseddu ar garreg y drws, masnachwyr diegwyddor a thwyll yn brydlon â phobl sy'n agored i niwed a phreswylwyr eraill, ac i helpu pobl i adnabod yr arwyddion a hysbysu'r CRh neu'r Heddlu ynghylch yr achosion hyn, neu eu galluogi i gysylltu os ydynt wedi dioddef oherwydd sgam, benthyciadau ariannol anghyfreithlon ac ati, a theimlo'n gyffyrddus i riportio hynny. Roedd y sefyllfa hon bellach yn ddifrifol iawn, oherwydd yr argyfwng costau byw. Byddai ymgysylltu ag Aelodau Etholedig yn bendant o gymorth i gyflawni hyn, yn ogystal ag ymgysylltu helaethach â chymunedau lleol fel Sefydliad y Merched, a'r posibilrwydd o ehangu Prosiect Torwyr Gwallt. Byddai diweddariad neu adroddiad pellach ar y perygl sy'n dod i'r amlwg yn gysylltiedig â phobl ifanc sy'n defnyddio e-sigaréts yn cael eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor yn ddiweddarach.

O ran y cyfeiriad yng Nghynllun Busnes y CRh at y SRhP (gan gynnwys effeithlonrwydd ynni) awgrymodd yr Is-Gadeirydd y dylai'r Pwyllgor ystyried cynnal ymarfer Gorchwyl a Gorffen ar sut y gallai'r SRhP, ar y cyd â'r Cyngor, helpu i gynnig eiddo fforddiadwy, iach, ynni-effeithlon a diogel ar draws Bro Morgannwg, er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng tai cyfredol. Amlinellodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai ac Adeiladu y mesurau arbed ynni amrywiol, a'r heriau'n gysylltiedig â'r rhain er mwyn cyrraedd carbon sero a thargedau eraill ar gyfer tai cymdeithasol a'r SRhP. Cyfeiriodd hefyd at bwysigrwydd y SRhP er mwyn helpu'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau tai statudol ar adeg lle'r oedd tai'n eithriadol o brin, a phreswylwyr yn wynebu heriau wrth geisio cael tŷ fforddiadwy, yn ogystal â gwaith y Cyngor a'r CRh i reoleiddio, gwella a hyrwyddo tai yn y SRhP er mwyn helpu i gartrefu preswylwyr.

O ran ymholiad y Cynghorydd Perkes am y gwaith y byddai'r CRh bellach yn ei wneud ynghylch cartrefi gwag gyda swyddogion y Cyngor yn y Fro (fel yr oedd eisoes yn ei wneud ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac yng Nghaerdydd) esboniwyd y byddai Swyddog Iechyd yr Amgylchedd â'r pwerau angenrheidiol yn cynorthwyo Tîm Cartrefi Gwag y Fro mewn modd mwy rhagweithiol er mwyn sicrhau canlyniadau mwy effeithiol. Mewn ymateb i gwestiwn dilynol y Cynghorydd ynghylch y dadansoddiad daearyddol o werthiannau / atafaeliadau sigaréts anghyfreithlon yn y Fro, dywedwyd y byddai'r union ffigurau'n cael eu canfod a'u rhannu â'r Pwyllgor. Yn gyffredinol, o'u mapio ledled Cymru, roedd atafaeliadau tybaco anghyfreithlon yn tueddu i fod yn fwyaf cyffredin mewn ardaloedd â'r lefelau uchaf o amddifadedd cymdeithasol ac economaidd.

Gyda chaniatâd i siarad, dywedodd y Cynghorydd Buckley ei bod hi'n ymddangos nad oedd y llysoedd yn gwneud digon i atal achosion am eu bod yn gorfodi cosbau cymharol ysgafn ar gyflawnwyr troseddau carreg drws, twyll ac ati. Eglurwyd bod gan y llysoedd ganllawiau dedfrydu yr oedd yn rhaid iddynt eu dilyn a bod yn rhaid iddynt ymdrin â phob achos yn ôl ei rinweddau unigol, er y gallai dedfrydau fod yn eithaf llym mewn rhai materion, megis twyll. O ran ei bryder ynghylch e-sigaréts a thargedu pobl iau, roedd y CRh ac asiantaethau eraill yn ymgyrchu i sicrhau bod cyfyngiadau tebyg i'r rhai cyfredol ar werthu tybaco a sigaréts yn cael eu cymhwyso i e-sigaréts a chyfarpar cysylltiedig. Yn olaf, ar ei ymholiad ynghylch addysgu trigolion i beidio rhoi gwastraff a allai ddenu llygod mawr mewn bagiau du, esboniodd y byddai'r Cyngor yn ysgrifennu at bob preswylydd ynghylch y newidiadau i'r trefniadau ailgylchu a gwastraff, ac y byddai'r ohebiaeth honno'n cynnwys cyngor ac arweiniad i breswylwyr ar reoli gwastraff, a byddai pwyntiau casglu gwastraff, gan gynnwys ar gyfer fflatiau, yn cael eu hystyried yn y tymor hwy.

Gyda chaniatâd i siarad, gofynnodd y Cynghorydd Goodjohn am ffrwd incwm newydd a nodwyd gan y CRh, y fenter Cartrefi i Wcráin, yr amser yr oedd hi'n ei gymryd i breswylwyr gael gafael ar y swyddog perthnasol drwy 'linell boeth' troseddau carreg drws y CRh, a'r arbedion a wnaed yn sgil dileu swyddi gwag o fewn y CRh. O ran y ffrwd incwm newydd, esboniwyd bod ychydig o ffrydiau incwm posibl o'r fath yn cael eu datblygu, yn ogystal ag adeiladu ar ffynonellau incwm a fodolai eisoes, hy, ailsefydlu cyrsiau hyfforddi achrededig i bartneriaid a chleientiaid eraill, yn dilyn COVID. O ran Cartrefi i Wcráin, bu'r CRh yn gweithio gyda swyddogion o bob un o'r 3 Chyngor partner ar hyn, gydag oddeutu 500 o wiriadau eiddo yn cael eu cynnal gan y CRh. O ran y 'llinell boeth' ar gyfer troseddau ar garreg y drws, byddai galwadau'n cael eu trosglwyddo'n 'gynnes' ar unwaith i un o'n swyddogion diogelu neu ymchwiliadau o bwys, ond gellid ymdrin â galwadau lle'r oedd llai o frys drwy'r system llwybro galwadau ar C1V dros gyfnod hirach. O ran arbedion i'r gyllideb yn sgil swyddi gwag, roedd dros £100k o arian wedi'i arbed yn sgil dileu'r swyddi.

O ran ymholiad y Cynghorydd Aviet ynghylch cardota stryd 'dan orfodaeth' yng Nghaerdydd a'r Fro, eglurwyd mai mater i Heddlu De Cymru yn hytrach na mater i'r CRh fyddai hwn, onid oedd yn cynnwys elfen o fasnachu ar y stryd, lle'r oedd angen trwydded.

Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried yr adroddiad wedi hynny

ARGYMHELLWYD –

(1) Y dylid cynnwys y sylwadau a ganlyn, ar ôl i'r Pwyllgor eu hystyried, fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Cynllun Busnes drafft ar gyfer Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ar gyfer 2023/24, cyn cyflwyno'r cynllun i'r Cydbwyllgor Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir:

- Dylai'r Cynllun nodi'r angen am broses glir ar gyfer penderfynu ar unrhyw ail-flaenoriaethu sylweddol o wasanaethau a wneir gan y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir gan y Cynghorau partner. Yng nghyd-destun pwysau parhaus o ran costau, fel y rhai sy'n deillio o'r argyfwng costau byw, dylid ystyried sut y byddai ymarfer ailflaenoriaethu o'r fath yn cael ei gyfathrebu ac yr ymgynghorir arno, fel rhan o'r broses ar gyfer cynnal adolygiad terfynol. penderfyniad yn cael ei wneud.
- Dylai'r Cynllun hefyd edrych ar sut y gallai Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ymgysylltu mwy ag Aelodau Etholedig ynghylch meysydd sy'n peri pryder a diogelu'r cyhoedd, megis masnachwyr twyllodrus, sgamiau, benthyca arian anghyfreithlon a throseddau carreg drws.

(2) Bod y Pwyllgor wedi nodi'r sector rhentu preifat a sut y gallai helpu i gynnig eiddo fforddiadwy, iach, ynni-effeithlon a diogel ar draws Bro Morgannwg, fel rhan o gefnogi Cyngor Bro Morgannwg i fynd i'r afael â'r argyfwng tai presennol a rhyddhau. ei ddyletswyddau statudol yn ymwneud â thai, fel maes y gellid ei adolygu gan y Pwyllgor yn y dyfodol ac y dylid ystyried sefydlu Gweithgor Tasg a Gorffen er mwyn cyflawni hyn.

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

(1) Er mwyn gallu ystyried sylwadau'r Pwyllgor cyn cwblhau Cynllun Busnes y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir ar gyfer 2023/24 yn derfynol.

(2) Rhoi cyfle i'r Pwyllgor graffu'n fanylach ar sut y gallai'r sector rhentu preifat helpu i fynd i'r afael â'r pwysau tai presennol a wynebir ym Mro Morgannwg ar y cyd â'r Cyngor, yn amodol ar ystyriaeth gan y Pwyllgor a Chadeiryddion y Pwyllgorau Craffu. a Grŵp Is-Gadeiryddion yn unol ag Amcanion Corfforaethol ac yn unol â pholisi'r Cyngor.